**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 20 o Hydref 2020 drwy Zoom.**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Phil Roberts (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Gwion Llwyd, Richard Robinson, Meirwen Lloyd, Haf Williams, Hefin Jones, Goronwy Hughes, Alan Pritchard, Iola Parry, Martin Jones.

**Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd** Beca Brown

**Clerc:** Meirion Jones

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Aelodau o'r cyhoedd**: Amanda Skull, Selwyn Griffith, Rhisiart ap Gwilym

**677. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod a diolchwyd i'r aelodau o'r cyhoedd am ymuno a'r cyfarfod

**678. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**679. Datgan buddiant personol.**

Y rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**680. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 15 Medi 2020**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 15 Medi 2020 yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**681. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

**682. I ystyried trefniadau Nadolig 2020 ac i ystyried ehangu ar y goleuadau presennol, symud y goeden Nadolig yn Cwm y Glo. Cyfeirir yr aelodau tuag at eitem 631 (f) cyfarfod 21 Gorffennaf yn dilyn argymhelliad y pwyllgor hamdden. Ni dderbyniwyd tystiolaeth yng nghyfarfod Awst fod unrhyw ymgynghoriad wedi bod a'r cyhoedd. Gofynnir i'r aelodau ddod a'i sylwadau ac argymelliadau ymlaen ar gyfer penderfyniad y cyngor. Dylid nodi fod y pwyllgor hamdden yn awyddus i ddatblygu ar oleuadau Nadolig, cystadleuaeth addurno tŷ a busnes Nadolig oherwydd ein bod wedi bod yn y cyfnod dan glo eleni.**

**Penderfynwyd:**

a) Derbyn argymhelliad y Pwyllgor Hamdden o greu cystadleuaeth ar gyfer i tŷ wedi addurno orau ar gyfer y Nadolig a cynnig gwobr o docyn o siop gig Wavell's o £30 i'r cyntaf a £20 i'r ail.
b) Gadael y coed Nadolig yn ei lleoliad presennol am eleni

**683. I ystyried cwyn a dderbyniwyd parthed carafannau yn cael eu tywys o Bryn Bras ac yn nadu trafnidiaeth lleol ddefnyddio'r ffordd.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Cemlyn Jones ar ran yr achwynydd oedd yn methu bod yn bresennol heno am y broblem o symud carafannau o Bryn Bras sydd yn golygu fod y ffordd ar gau ac yn nadu trigolion rhag symud o gwmpas.

Mewn ymateb adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, ei fod wedi bod mewn cysylltiad a rheolwr y safle ac fod system ar waith fel pam mae carafannau yn cael eu symud yna ei fod yn bosib cysylltu a'r parc a cofrestru eich e-bost, wedyn bydd e-bost yn cael ei anfon allan i hysbysu o unrhyw symudiad. Adroddwyd ymhellach nad yw symudiadau carafannau i gymryd lle cyn 9:00 yb ac ar ôl 4:00 yp

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad ac i'r clerc gysylltu a rheolwr y parc i bwrpas fod y cyngor yn cael ei gynnwys yn yr e-byst.

**684. I ystyried cwyn a dderbyniwyd parthed baw cŵn rhwng y salon gwallt a'r Co-op**

Adroddwyd fod y cyngor wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd roedd yn bresennol heno parthed baw ci rhwng y salon gwallt a'r Co-op. Nodwyd fod prinder biniau cyffredinol oddi fewn i'r ardal

**Penderfynwyd:**

a) Y Clerc i gysylltu a Chyngor Gwynedd gyda'r bwriad o gael y swyddog gorfodaeth ymweld a'r ardal;
b) Y Clerc i ymchwilio fewn i'r posibilrwydd o gael mwy o finiau yn yr ardal ynghyd a trefniadau eu gwagio

**685. I ystyried trefniadau ar gyfer Sul y Cofio 2020.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes fod trefniadau ar gyfer Sul y Cofio eleni yn aneglur ar hyn o bryd ac bydd angen mwy o wybodaeth cyn penderfynu ar sut i symud ymlaen a hyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn y wybodaeth

**686. I dderbyn diweddariad ar sefyllfa trosglwyddant cyfrifoldeb am fynwent Eglwys Saint Mihangel, Llanrug i'r cyngor.**

Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod ail gyfarfod wedi gynnal rhwng aelodau o Bwyllgor y Fynwent (a oedd yn gallu bod yn bresennol) a cynrychiolwyr o'r Eglwys. Ymysg y materion a gytunwyd arnynt oedd y byddai'r cyngor yn gwneud ei orau i'r Eglwys a'i cynorthwyo i chwilio am aseswyr cymwysedig ar gyfer cario allan asesiadau risg ar gyfer y fynwent. Nodwyd ymhellach fod y clerc wedi bod mewn cysylltiad a'r ICCM , sef y corff proffesiynol sydd yn cynrychioli gweinyddwyr mynwentydd ac fod pris o £2,000 +TAW wedi amcangyfrif ar gyfer cynnal asesiad risg llawn o fynwent yr Eglwys ynghyd a mynwent y cyngor. Cytunwyd y byddai'r gost yma yn cael ei rannu rhwng yr Eglwys a'r cyngor oherwydd roedd y nifer o feddi rhwng yn eith agos at ei gilydd.

Diolchwyd i griw yr Eglwys am eu gwaith da iawn roeddynt wedi ei wneud yn y fynwent hyd yma.

Adroddwyd gan yr Eglwys fod popeth yn ei le ar gyfer rhyddhau arian ar gyfer cario allan yr asesiad.

Nodwyd ymhellach fod wal ar y ffordd i'r fynwent yn bochio ac fod angen mynd draw i'w gweld.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a'r Clerc i gadw mewn cysylltiad a criw yr Eglwys. Adroddwyd fod yr asesiad risg ar ddal ar hyn o bryd oherwydd y sefyllfa ar glo yng Nghymru a'r ffaith fod yr asesydd yn trafaelio o ganol Manceinion sydd ar lefel 3. Ar hyn o bryd does dim syniad pa bryd gellir cario allan yr asesiad ond bydd yn cael ei wneud cyn gynted a bydd amgylchiadau .

O ran y wal sydd yn bochio, cytunwyd i gyfarfod ar y safle am 9:30 y bore ar 21 Hydref 2020

**687. I dderbyn adroddiad gan y Cyng Berwyn Parry Jones ar gynllun Fairshare ac i benderfynu os ydi Cyngor Cymuned Llanrug am ymuno a'r cynllun**

Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar gynllun Fairshare. Elusen ydi Fairshare sydd yn dosbarthu bwyd wedi ei roi gan archfarchnadoedd bwyd ar gyfer y rhai sydd ei angen. Adroddwyd fod y cynllun yn bodoli ym Mangor a Caernarfon a byddai'r bwyd yn cael ei ddanfon i Fangor ac yna ei gasglu a'i rannu yn Llanrug. Adroddwyd nad oedd yn rhaid i Llanrug gario allan y gwaith pe na fyddai dymuniad i'r gwasanaeth a gall dynnu allan ar unrhyw adeg.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a cytunwyd i arwyddo fewn i'r cynllun i gychwyn ac wedyn ystyried sut mae'r cynllun yn datblygu

**688. I ystyried tendrau a dderbyniwyd am waith coed yn Cwm y Glo**

Adroddwyd fod tri tendr wedi dderbyn am y gwaith o dorri coed o amgylch cae chwarae a parc sglefrio Cwm y Glo ac fod y manylion y prisiau eisoes wedi gylchredeg i'r aelodau.

**Penderfynwyd:** Yn seiliedig ar y prisiau a dderbyniwyd, manylion y gwaith penderfynwyd cario allan yr holl waith a adnabyddwyd yn yr asesiad risg. Penderfynwyd rhoi'r gwaith i'r tendr isaf ond cydnabyddwyd ei fod ef wedi gwneud gwaith blaenorol i'r cyngor ac roedd y gwaith o'r safon uchaf

**689. I ystyried cwyn a dderbyniwyd parthed parcio ar Ffordd Glanffynnon**

Adroddwyd fod cwyn wedi dderbyn am drefniadau parcio wrth ymyl mynedfa gefn yr ysgol gynradd. Adroddwyd fod ceir yn parcio ar llinellau 'zig zag' melyn, yn nadu trigolion rhag mynd i fewn i'w tai. Adroddwyd fod rhai rhieni sydd yn pigo'i plant i fyny hyd yn oed yn gwrthod symud ei ceir.

**Penderfynwyd:**

a) Y Clerc i adrodd am y broblem i'r gwasanaeth Priffyrdd a cael y swyddog gorfodaeth i ymweld ar adegau danfon plant i'r ysgol a'i casglu.
b) I gysylltu a'r ysgol i'w hysbysu o gwynion sydd wedi dderbyn;
c) Cynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Llywodraethol yr Ysgol i ddwyn y mater gerbron bwrdd Llywodraethwyr yr ysgol.

**690. I dderbyn adroddiad gan y Cyng. Berwyn Parry Jones ar weithgareddau Cyngor Gwynedd.**

**Addysg Ôl 16**

Mae'r Cyngor yn awyddus i ddechrau y broses o ymgynghori ar addysg ôl 16 yn Arfon. Maent wedi cynnal amryw o gyfarfodydd rhithiol, un hefo'r Penaethiaid yr ysgolion sydd yn cael ei effeithio, un hefo Cynghorwyr Sîr Arfon, ac un hefo Corff Llywodraethu bob wythnos. Maent yn pwysleisio does dim cynlluniau ganddynt, mae'n lechen lân, ac eisiau clywed gan pawb rhwng Tachwedd ac Rhagfyr. Mae peth brys oherwydd maent wedi sicrhau grant o £18miliwn, rhag ofn bydd angen adeiladau newydd, ac mae cyfnod y grant yn dod i ben yn 2025.

**Cynllunio**

Mae Meirion wedi rhannu e-bost yn eich hysbysu fod y Cyngor eisiau ymgynghori ar ddau o'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi creu, sef;-

Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid (rhan 4.6 a paragraff 6.2.1) a

Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu

Mae'r linc yn yr e-bost os oes rhywun eisiau ymateb i'r ymgynghoriad

**Symudiadau Carafannau Bryn Bras**

Wedi derbyn sawl cwyn am trafferthion yn golygu fod y ffordd wedi cau ar rhai adegau. Rwyf wedi cael cyfarfod hefo rheolwr y safle, mae wedi cytuno i ddanfon e-bost allan i bawb sydd eisiau cael gwybod ar gychwyn yr wythnos i adael i bawb wybod pryd fydd y symudiadau am yr wythnos. Dwi wedi cysylltu a'r trigolion hynny dwi'n ymwybodol ohonynt i ofyn iddynt yrru eu cyfeiriad e-bost i Bryn Têg er mwyn iddynt dderbyn yr e-bost wythnosol.

**Ceir wedi ei gadael**

Ddim yn bosib symud un o'r ceir sydd ar y ffordd yn ymyl y skatepark, oherwydd mae trwydded ac MOT arno tan diwedd Hydref. Os fydd o ddim wedi mynd ar ôl hyn, mae posib gwneud mwy. Un neu ddau o'r ceir eraill wedi symud ond rhai dal yn broblem.

**691. I dderbyn adroddiad gan bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones nad oedd dim byd ychwanegol a gyfeiriwyd ato yn eitem 686 uchod. Ar wahân i'r ffaith fod bedd wedi suddo rhywfaint yn y fynwent heb unrhyw reswm amlwg. Roedd y mater wedi gyfeirio at yr ICCM ac roeddynt wedi ymateb nad oeddynt wedi dod ar draws unrhyw tebyg i hyn. Adroddwyd ymhellach y byddai'r clerc yn cysylltu a'r ymgymerwyr angladdau i holi os ydi o mewn cysylltiad a'r teulu ac i gasglu ei farn ac adroddwyd ymhellach byddai'r Cynghorydd Hefin Jones yn ceisio cysylltu a'r teulu i'w hysbysu o hyn.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**692. I dderbyn adroddiad gan bwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddodd cadeirydd y Pwyllgor Hamdden, Y Cynghorydd Cemlyn Jones fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac ei fod yn falch o ddweud fod pob aelod yn bresennol. Ymysg y materion a drafodwyd ac a phenderfynwyd arnynt oedd:

a) Cadw'r coed Nadolig ble maent ar gyfer Nadolig 2020;
b) Adroddwyd fod y broblem gyda trydan ar goeden Cwm y Glo wedi ddatrys;
c) Fod y cystadleuaeth addurno tŷ ar gyfer y Nadolig yn cael ei greu gyda gwobr o £30 ar gyfer y wobr gyntaf a £20 ar gyfer yr ail. Y rhain i fod yn dalebau cig o siop gigydd Wavell's Llanrug.
d) Fod hysbyseb yn mynd allan ar gyfrif Facebook y cyngor i hysbysebu'r gystadleuaeth;
e) Fod panel o farnwyr wedi apwyntio o'r cyngor a benderfynu ar enillydd y gystadleuaeth.

Adroddwyd hefyd fod galw am ddiwrnod casglu ysbwriel ond herwydd yr amgylchiadau presennol nodwyd efallai na fydd hyn yn bosib. Adroddodd y Cadeirydd y byddai yn cysylltu a Cadw Cymru'n Daclus i holi os oes asesiad risg wedi baratoi ganddynt ar gyfer y math yma o weithgaredd yn yr awyrgylch presennol.

Adroddwyd ymhellach byddai'r Cadeirydd yn edrych fewn i sefyllfa 'Pat Testing' y goleuadau Nadolig.

Gobeithir eu rhoi mlaen ar y 1af o Rhagfyr os bydd pawb yn gytûn.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**693. I dderbyn dyfynbris am anfon holiadur ar gyfer ymgysylltu a'r gymuned ac anfon holiadur drwy'r post er sicrhau fod pob aelwyd oddi fewn i ardal y cyngor yn ei dderbyn.**

Adroddwyd ein bod wedi edrych fewn i'r posibilrwydd o gynnal arolwg o ddymuniadau'r gymuned er mwyn galluogi'r cyngor greu strategaeth ar gyfer y dyfodol. Byddai hyn yn ei helpu i greu nod ac amcanion cadarn yn seiliedig ar ddyheadau'r trigolion. Ystyriwyd sawl opsiwn o gario allan yr arolwg, naill ai ar lein, drwy Facebook ayyb ond penderfynwyd byddai hyn o bosib yn amddifadu nifer o drigolion rhag gallu cymryd rhan yn yr arolwg ac o hyn byddai canlyniadau ddim yn adlewyrchiad teg o'r gymdeithas leol. Adroddodd y clerc ei fod wedi creu sgerbwd o holiadur a bydd yn ei rannu am sylwadau maes o law ond yn y cyfamser wedi derbyn pris gan yr argraffwyr am gario allan y gwaith o'i postio i bob cartref yn y gymuned.

**Penderfynwyd:** Symud ymlaen a'r arolwg a derbyn y pris am gyflawni'r gwaith

**694. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'. https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

**DIM**

**695. I ystyried cynllun ar gyfer anrhydeddu unigolion sydd wedi gwasanaethu'r gymuned. (Yr eitem yma wedi drosglwyddo o eitem 667 cyfarfod 15 Medi 2020)**

Penderfynwyd:

a) Peidio creu cronfa Cadeirydd;
b) Y Cadeirydd i ysgrifennu at Clifford Williams i ddiolch iddo yn swyddogol ar ran y cyngor am ei gyfraniad;
c) Fod y cyngor yn ystyried unrhyw ffordd arall i anrhydeddu Clifford Williams

Nodwyd fod dau ymgeisydd wedi dod ymlaen ar gyfer llenwi sedd wag a penderfynwyd cynnal cyfweliad i’r ddau ar 28 o Hydref am 7:00 y.h drwy Zoom.

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: